

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX
Dydd Mawrth, 19eg Rhagfyr, 2017 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins (Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 15 Rhagfyr 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk.

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017 yn rhai cywir.

3. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Derbyn adroddiad gan yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r rhestr arfaethedig ddiweddaraf i Aelodau o'r Cabinet o faterion mae angen eu trafod yn ystod y flwyddyn 2017–18.

Tudalennau 15-46

4. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (SYLWEDDAU MEDDWOL GAN GYNNWYS ALCOHOL)

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – sy'n ceisio awdurdod i gynnal ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig i gadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i reoli achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Rhondda Cynon Taf ac i estyn y Gorchymyn i gynnwys dau barth gwaharddedig penodol i reoli defnydd sylweddau meddwol yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr.

Tudalennau 47 - 62

5. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – TAI AMLFEDDIANNAETH

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.

Tudalennau 63 - 88

6. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2018/19

Derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n amlinellu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

Tudalennau 89 - 92

7. GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR YN OL DISGRESIWN – POBL SY'N GADAEL GOFAL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â Chynllun Gostyngiad Treth y Cyngor yn ôl Disgresiwn ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, yn rhan o gyflawni'n weithredol ei ddyletswydd yntau'n Rhiant Corfforaethol wrth ymalluogi a chefnogi pobl sy'n gadael gofal (18-25 oed).

Tudalennau 93 -96

8. MATERION BRYG

Trafod unrhyw faterion bryg y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: A Morgan (Chair)
M Webber (Vice-Chair)
R Bevan
A Crimmings
G. Hopkins
M Norris
(Mrs) J. Rosser
R. Lewis
(Mrs) C. Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr y Iechyd a Diogelwch y Cyhoed
Richard Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol